

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng bod yn aelod o undeb y gweithwyr cymdeithasol a basw?

Mae bod yn aelod o Undeb y Gweithwyr Cymdeithasol yn fantais ychwanegol i aelodau BASW (Cymdeithas Brydeinig Gweithwyr Cymdeithasol) ac mae ein ffi aelodaeth yn £20 y flwyddyn (neu £10.00 y flwyddyn i fyfyrwyr a'r rhai sy'n ddi-waith). **Mae SWU yn Undeb Llafur annibynnol ac yn falch o fod yn gysylltiedig â BASW, ond mae ein statws cyfreithiol fel Undeb Llafur yn golygu bod aelodau SWU yn cael eu diogelu'n well a'u hawl i gynrychiolaeth mewn unrhyw gyfarfod gyda chyflogwr yn cael ei amddiffyn.**

Aelodaeth o SWU yn unig all warantu cynrychiolaeth cyflogaeth gan UNDEB LLAFUR. Ni ellir gwarantu cynrychiolaeth cyflogaeth i aelodau BASW os nad yw cyflogwr yn cydnabod BASW neu yn gwrthod mynediad. **Dyna pam ei bod yn bwysig i ymuno ag SWU neu i barhau gyda'ch aelodaeth i wneud yn siŵr nad yw yn dod i ben.** Mae SWU a BASW yn cydweithio trwy gytundeb cydweithrediad gan roi'r dewis o aelodaeth ar y cyd sy'n fanteisiol iawn ac yn gost effeithiol.

Mae ein dau fudiad wedi ymrwmo i gynnig hyn oherwydd rydym yn ystyried mai dyma'r cynnig orau gallem wneud gyda'n gilydd i Weithwyr Cymdeithasol. Rydym o'r farn bod hyn yn ein galluogi i fod yn gadarn ar gyfer datblygiad proffesiynol ac i roi llais, i fod yn gryf dros foeseg a hawliau dynol, yn gryf dros gynrychioli gweithwyr cymdeithasol, pan fo angen, ac yn gryf wrth ddylanwadu ar bolisiau llywodraeth a chyflogwyr yn yr hirdymor. **Gyda'n gilydd rydym yn adeiladu mudiad cymdeithasol dan arweiniad y gweithwyr.**

Mae ymaelodi ag Undeb y Gweithwyr Cymdeithasol yn ddewisol ac rydym yn parchu pob dewis ond rydym o'r farn mai hwn sy'n cynnig y warant a diogelwch orau i weithwyr cymdeithasol a'u proffesiwn. Os ydych yn ansicr a ydych wedi dewis i fod yn aelod o SWU, gellwch ofyn i Wasanaethau Aelodau (0121 622 8413) neu chwiliwch ar-lein trwy www.swu-union.org.uk. **Mae hyn yn bwysig oherwydd o fis Medi 2017, daeth rheol tri mis SWU i rym yn unol â hyn a gytunwyd gan yr aelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2016.**

Esboniad o'r rheol tri mis:

Mae'r rheol tri mis yn golygu na chaiff aelod newydd BASW na ymunoidd ag SWU yn cael cynnig cynrychiolaeth Undeb Llafur hyd nes **cael aelodaeth barhaus o 3 mis gyda SWU.** Bydd y rheol newydd yn helpu i atal y camddefnydd o aelodaeth - megis "ceisio prynu yswiriant ar ôl y ddamwain". Mae hwn yn newid pwysig oherwydd nid oedd cyflogwyr yn arfer cydnabod nac yn awdurdodi Cyngor a Chynrychiolaeth BASW (A&R).

Dim ond trwy bod yn aelod o SWU sy'n gwarantu Cynrychiolaeth Cyflogaeth.